Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**COFIWCH - Streic Gorffennaf 10fed -** Mi fydd rhai aelodau o staff yr ysgol yn gweithredu'n ddiwydiannol ar ddydd Iau, Gorffennaf 10fed ac mi fydd hyn yn effeithio ar drefniadau cinio a rhai o'r staff cynorthwyol.
Mi fydd yr ysgol yn parhau ar agor ond gofynnir yn garedig i ddisgyblion ddod â **phecyn bwyd** ar gyfer cinio. Mi fydd yr ysgol yn trefnu bwyd ar gyfer disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim.

**Lluniau dosbarthiadau -** os ydych yn dymuno archebu lluniau dosbarthiadau yna dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar yr amlen a dychwelwch y manylion gyda'r tâl i'r ysgol cyn dydd Llun, Gorffennaf 14eg. Mae'r lluniau i'w gweld ar ddrysau'r ystafelloedd dosbarth.

**Taith feics Blwyddyn 6** – mi fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd ar daith feics ar y llwybr beicio i'r Clwb Criced ac yna nôl i'r Prom i gael hufen iâ ar fore dydd Gwener, Gorffennaf 11eg. Cofiwch ddod â £2.00 ar gyfer yr hufen iâ. Mi fydd staff Adran Diogelwch y Ffordd yn ymuno â ni.

**Diwrnod hwyl yr Urdd i Flwyddyn 6** – mi fydd Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yn y diwrnod hwyl ar gaeau'r Ficerdy ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 15fed. Mi fydd angen pecyn bwyd a dillad addas.

**Noson Agored –** os oes agweddau o'r adroddiadau cofnod cynnydd sydd angen eglurhad pellach neu unrhyw faterion sydd angen eu trafod yna mi fydd yr athrawon yn yr ysgol o 3.30 tan 5 o'r gloch ar nos Lun, Gorffennaf 14eg. Mi fydd angen i chwi gysylltu â Mrs Wendy James, ysgrifenyddes yr ysgol er mwyn gwneud apwyntiad.

**Noson Gymdeithasol / Barbeciw (yn parhau glaw neu hindda)** – cynhelir y Noson Gymdeithasol / Barbeciw ar nos Iau, Gorffennaf 17eg am 6 o'r gloch. Pris mynediad sy'n cynnwys bwyd fydd £3.50 (os ydych yn archebu ymlaen llaw) neu £5.00 ar y gât ar y noson. PRIS TOCYNNAU AR GYFER DISGYBLION YR YSGOL FYDD £2.00 (os ydych yn archebu ymlaen llaw) neu £3.00 ar y noson

Mi fydd dewis ar gael;

1. Barbeciw arferol
2. Barbeciw llysieuol
3. Cig rhost

Chwaraeon potes ar gyfer y disgyblion i gychwyn am 6.15. Mi fydd Band Pres Mr Alan Phillips yn chwarae yn ystod y noson.

**Gwyliau'r Haf -** mi fydd yr ysgol yn cau am 2 o'r gloch ar ddydd Gwener, Gorffennaf 18fed ac yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Mercher, Medi'r 3ydd.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith – cofiwch gwblhau'r ffurflen felen â ddosbarthwyd gyda'r adroddiadau er mwyn i ni gael eich syniadau ar gyfer gwella'r ysgol i'r dyfodol.**

**R C Williams,**

**Pennaeth 9/7/2014**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

***PLEASE REMEMBER - Industrial action on Thursday, July 10th*** *- Some members of staff will taking industrial action on Thursday, July 10th and this will effect lunch time arrangements and some support staff. The School will remain open but we kindly ask pupils to bring a* ***packed lunch*** *to school. The School will arrange a meal for those who usually have free school meals.*

***Class photos*** *– if you wish to order a class photo then please follow the instructions on the envelope and return with payment to School by Monday, July 14th. The photos are dispayed on the classroom doors.*

***Year 6 bike ride*** *– Year 6 pupils will be going on a bike ride along the cycle path to the Cricket Club and then back to the Prom for an ice creame on Friday morning, July 11th. Please remember to bring £2.00 for an ice cream. Staff from the Road safety department will be cycling with us.*

***Urdd Fun day for Year 6*** *– Year 6 children will be taking part in the fun day at the Vicarage fields on Tuesday, July 15th. A packed lunch will be required.*

***Open Evening*** *– if there are any aspects of the school progress reports that need further explanation or issues that need to be discussed then the teachers will be available at school on Monday, July 14th from 3.30 until 5 o'clock. You will need to contact the school secretary, Mrs Wendy James to make an appointment.*

***SOCIAL EVENING / BARBEQUE (to continue rain or shine)*** *– the Social evening / Barbeque will be held on Thursday evening, July 17th at 6 o'clock. Entrance fee including food will be £3.50 (in advance) or £5.00 at the gate on the evening.*
*TICKETS FOR SCHOOL CHILDREN WILL COST £2.00 in advance or £3.00 on the evening*

*There will be a choice of food available*

1. *Usual barbeque*
2. *Vegetarian barbeque*
3. *Roast meat*

*Games for children will start at 6.15. A Brass Band organised by Mr Alan Phillips will be playing during the evening.*

***School Holidays*** *– the School will close at 2 o'clock on Friday, July 18th and will re-open for pupils on Wednesday, September 3rd.*

***If you have any worries regarding your child's education the please contact me immediately – please remember to complete the yellow form distributed with your child's report so that we can receive your views about improving the school for the future***

***R C Williams***

***Headteacher 9/7/2014***